**Cynrychiolyddion Pwyllgorau Ardal**

| | |
|---|---|
| **Rôl:** | Gofalu fod barn ac argymhellion yr aelod Gynghorau yn cael eu rhannu gyda chynrychiolwyr eraill ar y Pwyllgor Ardal. Rhaeadru gwybodaeth o'r Pwyllgor Ardal yn ôl i'r aelod Gyngor er gwybodaeth ac i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol. |
| **Ymrwymiad amser bras:** | Mynychu pedwar cyfarfod chwarterol o'r Pwyllgor Ardal (a gynhelir fel arfer rhwng 7 pm a 9 pm). Gallai fod ymrwymiadau amser/cyfrifoldebau eraill pe bai'r Pwyllgor Ardal yn ethol y person i'w cynrychioli mewn cyfarfodydd allanol. |
| **Sgiliau a phrofiad:** | Gwybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref / Llywodraeth Leol<br>Hawdd ymwneud ag ef/â hi ac ar gael<br>Cyfathrebydd rhagorol<br>Dibynadwy ac ymrwymedig<br>Cyfeillgar<br>Hawdd ymwneud ag ef/â hi<br>Arweinydd<br>Brwdfrydig<br>Bodlon gwrando ar syniadau newydd<br>Cefnogol i Gynghorwyr Cymuned a Thref eraill / Clercod |
| **Cefnogaeth / Hyfforddiant:** | Cefnogaeth gan y Swyddog Datblygu Rhanbarthol sy'n gwasanaethu'r Pwyllgor Ardal**.** |

**Prif Dasgau**

Mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Ardal yn rheolaidd a bwydo barn eu Cyngor i'r Pwyllgor Ardal ac yn yr un modd bwydo i'w Cyngor wybodaeth a dderbyniwyd yn y Pwyllgor Ardal er gwybodaeth ac i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol e.e., cyrsiau hyfforddiant, ymgynghoriadau polisi, arfer da, dogfennau canllaw, ymgynghoriaeth.

**Manteision bod yn gynrychiolydd eich Cyngor ar Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru:**

- Hwb gwych i'ch CV – gweithio gyda staff Un Llais Cymru a Chynghorwyr yn y rhanbarth i hyrwyddo gwaith y Sector Cynghorau Cymuned a Thref.

- Boddhad o wneud rhywbeth i wneud gwahaniaeth yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref a'r rhanbarth yn ogystal ag yn eich cymuned leol.

- Datblygu eich diddordebau gyda golwg efallai ar ddod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol neu ran arall o drefniadau llywodraethu Un Llais Cymru

h.y., cefnogi gwaith polisi Un Llais Cymru a helpu datblygu ymatebion y sector i ymgynghoriadau polisi Llywodraeth Cymru.

- Buddion cymdeithasol – cyfle i fynd allan, mwynhau a chyfarfod â phobl newydd.

- Cefnogi eich cymuned leol – rhoi rhywbeth yn ôl i'ch cymuned, boddhad personol o wybod eich bod wedi helpu eraill.

**Os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Rhanbarthol Un Llais Cymru**